**Bwletin o Batagonia 11 – Y Celyn Bach gan Twm Elias**

Llwyn cryno gyda dail a blodau pigog, nid anghyffredin ar rannau o'r paith yn nhalaith Chubut yw y celyn bach *(Chucuiraga avellanedae)*. Mae'n blanhigyn sy'n endemig i beithdir Patagonia ac yn tyfu o gyffiniau Mendoza yn y de hyd Santa Cruz yn y gogledd. Quilembai yw ei enw Sbaenaidd, enw sy'n tarddu yn uniongyrchol o'r enw Cymraeg – y celyn bach.

Mewn rhai llecynnau sy'n ffafriol iddo, gall flodeuo'n doreithiog ar y priddoedd gweddol feddal geir mewn rhai llefydd ar y paith. Bryd hynny, yn yr haf a'r hydref, gan droi'r ardal yn felyn-oren. Bydd yn cael ei fwyta gan wartheg pan nad oes porthiant gwell ar gael.

Caiff ei blannu mewn gerddi mewn ardaloedd sych, nid yn unig am ei harddwch ond hefyd am ei ddefnyddioldeb. Defnyddir y blodau melyn mewn trefniadau blodau am eu bod yn weddol galed, ac felly'n para yn hir. Mae'n dda i wella dolur gwddw, anwyd a'r ffliw. Roedd yn un o'r amryw o blanhigion y dysgodd y Cymry am eu rhinweddau gan y brodorion yn nyddiau cynnar y Wladfa.

Ar y goron enillwyd gan Manon Rhys yn Eisteddfod Maldwyn yn 2015, ac a gomisiynwyd gan Gymdeithas Cymru Ariannin, mae rhan o'r addurn arni yn cynrychioli y celyn bach.



*Blodyn a dail pigog y celyn bach*



*Golwg agosach ar ffurf y blodyn*